

ADRODDIAD RHIF 70031978-001

ASTUDIAETH CYFLOGAETH SECTOROL

ADRODDIAD TERFYNOL

CYFRINACHOL

TACHWEDD 2017

ASTUDIAETH CYFLOGAETH SECTOROL

ADRODDIAD TERFYNOL

Cyngor Sir Caerfyrddin

Adroddiad Terfynol Cyfrinachol

Rhif y prosiect: 70031978
Dyddiad: Tachwedd 2017

WSP | Parsons Brinckerhoff
70 Chancery Lane
Llundain
WC2A 1AF

www.wsp-pb.com

RHEOLI ANSAWDD

CYHOEDDIAD/DIWYGIAD	CYHOEDDIAD CYNTAF	DIWYGIAD 1	DIWYGIAD 2	DIWYGIAD 3
Sylwadau	Strwythur adroddiad cychwynnol ar gyfer sylwadau	Adroddiad Drafft	Adroddiad Terfynol Drafft	Adroddiad Terfynol
Dyddiad	08/05/2017	30/06/2017	05/09/2017	28/11/2017
Paratowyd gan	Fintan Geraghty Charlotte Rhee	Fintan Geraghty Charlotte Rhee	Fintan Geraghty Charlotte Rhee	Fintan Geraghty Charlotte Rhee
Llofnod				
Gwiriwyd gan	Fintan Geraghty	Fintan Geraghty	Fintan Geraghty	Fintan Geraghty
Llofnod				
Awdurdodwyd gan	Fintan Geraghty	Fintan Geraghty	Fintan Geraghty	Fintan Geraghty
Llofnod				
Rhif y prosiect	70031978-001	70031978-001	70031978-001	70031978-001
Rhif yr adroddiad	001	002	003	004
Cyfeirnod ffeil				

TABL CYNNWYS

1	CYFLWYNIAD	1
1.1	CEFNDIR I'R ASTUDIAETH	1
1.2	STRWYTHUR YR ADRODDIAD.....	1
2	CYD-DESTUN ECONOMAIDD	3
2.1	CYFLWYNIAD.....	3
2.2	DULL O GYNNAL YR ASTUDIAETH.....	4
2.3	PERFFORMIAD ECONOMAIDD SIR GAERFYRDDIN.....	5
2.4	DYHEADAU TWF A SECTORAU CYFLOGAETH YN SIR GAERFYRDDIN.....	7
2.5	SAFLEOEDD CYFLOGAETH ALLWEDDOL.....	9
2.6	PROSIECTAU TRAWSNEWIDIOL ALLWEDDOL.....	11
3	CYFLENWAD PRESENNOL O ARWYNEBEDD CYFLOGAETH	14
3.1	CYFLWYNIAD.....	14
3.2	CYNLLUN DATBLYGU LLEOL (CDLL), 2014.....	14
3.3	ADOLYGIAD TIR CYFLOGAETH, 2016	15
3.4	AIL ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL Y CDLL (1 EBRILL 2016 - 31 MAWRTH 2017)	17
3.5	CASGLIADAU	18
4	GOFYNION ARWYNEBEDD CYFLOGAETH YN Y DYFODOL.....	19
4.1	CYFLWYNIAD.....	19
4.2	FFYNONELLAU DATA	19
4.3	CRONFA DDATA A MODEL RHAGWELD.....	19
4.4	METHODOLEG	20

4.5	RHAGOLYGN.....	21
4.6	CASGLIADAU.....	24
5	Y CYDBWYSEDD GALW/CYFLENWAD	25
5.1	CYFLWYNIAD.....	25
5.2	TUEDDIADAU PRESENNOL.....	25
5.3	CANLYNIADAU ECONOMAIDD	26
6	GOBLYGIADAU POLISI A DARPARU	27
6.1	CYFLWYNIAD.....	27
6.2	CAMAU GWEITHREDU.....	27
6.3	AMCANION POLISI A DARPARU YCHWANEGOL.....	28
7	CASGLIADAU	29
7.1	CASGLIADAU ALLWEDDOL.....	29
7.2	ARGYMHELLION.....	29
	FFYNONELLAU	31

TABLAU

TABL 2-1	CANOLFANNAU GWASANAETH A CHANOLFANNAU GWASANAETH LLEOL	10
TABL 3-1	DADANSODDIAD CYFANSWM ARWYNEBEDD Y TIR (HECTARAU)	16
TABL 4-1	CANLYNIADAU.....	23

FFIGURAU

FFIGUR 2-1	DIAGRAM METHODOLEG.....	4
FFIGUR 2-2	GWERTH YCHWANEGOL GROS Y PEN (CYNHYRCHIANT)	5
FFIGUR 2-3	TUEDDIADAU CYFLOGAETH 2004 - 2015	6
FFIGUR 2-4	PROFFIL MAINT BUSNESAU.....	7
FFIGUR 3-1	POLISI CYNLLUNIO YNG NGHYMURU (ARG.9), ADRAN 7.5.1	14
FFIGUR 3-2	TIR PRESENNOL	15

1 CYFLWYNIAD

1.1 CEFNDIR I'R ASTUDIAETH

- 1.1.1 Comisiynwyd WSP (WSP | Parsons Brinckerhoff gynt) gan Gyngor Sir Caerfyrddin i gynnal Astudiaeth Cyflogaeth Sectorol. Mae hyn oherwydd bod y Cyngor angen dealltwriaeth o dueddiadau economaidd a chyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin yn rhan o adolygiad parhaus o dystiolaeth i gefnogi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) a Fabwysiadwyd, a dogfennau a strategaethau eraill.
- 1.1.2 Bydd yr astudiaeth yn cynyddu dealltwriaeth y Cyngor o angen cyflogaeth fesul sector a sut y bydd hyn yn amlygu ei hun dros y tymor byr i'r tymor canolig. Trwy nodi'r gofynion cyfredol a marchnad fesul sector, mae'r comisiwn yn cymryd amcanion strategol y Cyngor i ystyriaeth, a rheini Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Ystyrir datblygiad economaidd y Sir yn y dyfodol yng nghydestun yr isranbarth ehangach, lle mae Cytundeb Dinas-ranbarth Bae Abertawe wedi cael ei lofnodi'n ddiweddar, gan sicrhau £1.3 biliwn i gynghorau Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro.
- 1.1.3 Mae'r gwaith hefyd yn dilyn ymlaen o ymgymeriadau ac astudiaethau blaenorol, gan gynnwys:
- Astudiaeth Tir Cyflogaeth a gynhaliwyd yn 2010;
 - Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir Gaerfyrddin, a fabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2014;
 - Strategaeth Trawsnewid y Cyngor, a drafodwyd yn fanwl yn y Cynllun Adfywio Strategol ar gyfer Sir Gâr 2015-2030, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2015; a
 - Strategaethau craidd eraill.
- 1.1.4 Gyda phwyslais ar dir cyflogaeth fel un elfen bwysig o'r astudiaeth, mae'r diffiniad o ofynion defnydd tir 'cyflogaeth' yn canolbwyntio ar y canlynol:
- Dosbarthiadau defnydd busnes B1 a B2 (e.e. swyddfeydd, ymchwil a datblygu a diwydiant ysgafn); a
 - Dosbarth defnydd B8 (e.e. diwydiant cyffredinol a storio neu ddsbarthu, fel warysau).
- 1.1.5 Mae'r astudiaeth yn darparu tystiolaeth gefndirol i'w defnyddio yn Adolygiad Tir Cyflogaeth y Sir yn ogystal â mewbynnau yn rhan o unrhyw Adolygiad o'r CDLI.

1.2 STRWYTHUR YR ADRODDIAD

- 1.2.1 Mae'r adroddiad wedi ei gynllunio fel ei fod yn trafod pob un o'r meysydd allweddol mewn trefn gronolegol ac yn adlewyrchu'r amrywiaeth o bynciau a nodwyd yn y Briff Gwasanaeth gwreiddiol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2017 a'r cyfarfod dilynol gyda'r Cyngor yng Nghaerfyrddin ar 5 Ebrill 2017.
- 1.2.2 Dyma weddill y penodau yn yr adroddiad:
- Mae Pennod 2 yn nodi'r Cyd-destun Economaidd ar gyfer y Sir, gan gynnwys nodweddion economaidd cyffredinol yn ogystal â'r sectorau a'r sector twf allweddol a meysydd twf;
 - Mae Pennod 3 yn cynnwys crynodeb o'r cyflenwad presennol o le cyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin;

- Mae Pennod 4 yn trafod y gofynion o ran arwynebedd cyflogaeth yn y dyfodol (e.e. amcangyfrifon o ofynion arwynebedd cyflogaeth yn y dyfodol yn seiliedig ar wahanol senarios twf);
- Mae Pennod 5 yn trafod y “cydbwysedd galw / cyflenwad” (e.e. cymhariaeth o ofynion tir amcangyfrifedig gyda’r cyflenwad presennol o le cyflogaeth);
- Mae Pennod 6 yn trafod materion polisi a darparu (e.e. y polisi a’r mesurau eraill y mae angen eu hystyried i gefnogi’r portffolio safleoedd presennol ac i ddiwallu anghenion busnes y dyfodol); ac
- Mae Pennod 7 yn crynhoi canfyddiadau’r gwaith.

2 CYD-DESTUN ECONOMAIDD

2.1 CYFLWYNIAD


- 2.1.1 Diben y bennod hon yw cyflwyno'r "cyd-destun economaidd" cyffredinol yn Sir Gaerfyrddin cyn mynd ymlaen i ddiffinio'r dylanwadau allweddol ar ofynion o ran arwynebedd cyflogaeth yn y dyfodol i bob sector cyflogaeth.
- 2.1.2 Yr amcan yw trafod y gwahanol sectorau lle ceir trywydd twf cryf ac nid y sectorau 'traddodiadol' yn unig lle disgwylir twf cefndirol cyffredinol. Mae hwn yn gyfnod pwysig a chyffrous iawn i ddatblygiad economaidd Sir Gaerfyrddin wrth i'r sir drawsnewid o ddibyniaeth ar sectorau mwy traddodiadol (fel gweithgynhyrchu ac amaethyddiaeth) i gyfres o sectorau newydd, gwerth uchel.
- 2.1.3 Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun Dinas-ranbarth Bae Abertawe a'r gwahanol fentrau a datblygiadau sy'n mynd rhagddynt.
- 2.1.4 Mae Sir Gaerfyrddin yn chwarae rhan fawr yng nghynlluniau Dinas-ranbarth Bae Abertawe a dangoswyd hyn ym mis Mawrth 2017 wrth lofnodi Cytundeb gwerth £1.3 biliwn Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Bydd y Cytundeb yn rhoi hwb o £1.8 biliwn i'r economi leol ac yn creu bron i 10,000 o swyddi newydd yn ardal Dinas-ranbarth Bae Abertawe dros y 15 mlynedd nesaf.
- 2.1.5 Cymeradwywyd un ar ddeg o brosiectau mawr a byddant yn darparu swyddi yn y sectorau ynni, gweithgynhyrchu 'clyfar', arloesedd a gwyddorau bywyd. Bydd buddsoddiad hefyd yn seilwaith digidol y rhanbarth a sgiliau'r gweithlu a'r gronfa dalent.
- 2.1.6 Mae pob un o'r rhain yn arbennig o berthnasol i Sir Gaerfyrddin gan fod y Cytundeb yn cynnwys tri datblygiad allweddol yn y sir a fydd yn gwneud llawer i fodloni ei hamcanion strategol ac economaidd:
- Pentref Llesiant a Gwyddorau Bywyd yn Llanelli;
 - Prosiect diwydiant creadigol yn yr Egin yng Nghaerfyrddin; a
 - Menter sgiliau a thalent a fydd yn cynorthwyo datblygiad sgiliau ar gyfer pob un o'r 11 gwahanol brosiect yn y sir.
- 2.1.7 Trafodir pob un o'r rhain yn fwy manwl yn ddiweddarach yn y bennod.
- 2.1.8 Mae nifer o'r sectorau newydd yn Sir Gaerfyrddin wedi eu dosbarthu ar draws y sir gyda gwyddorau bywyd wedi'u canolbwyntio o gwmpas Llanelli (fel y nodwyd yn y Cytundeb Dinas a lofnodwyd yn ddiweddar) yn ogystal â'r diwydiannau creadigol a digidol wedi'u canolbwyntio o gwmpas Caerfyrddin.

2.2 DULL O GYNNAL YR ASTUDIAETH

2.2.1 Nodir y dull a fabwysiadwyd ar gyfer yr astudiaeth gyffredinol yn Ffigur 2-1. Mae hwn yn dangos sut ffurfiodd adolygiad o lenyddiaeth bresennol a data a gasglwyd ran gyntaf yr astudiaeth cyn cyflawni elfen ragolygon y gwaith.

2.2.2 Dangosir elfennau terfynol y gwaith yn Ffigur 2-1 hefyd, lle nodir 'bylchau' a goblygiadau polisi.

Ffigur 2-1 Diagram Methodoleg



2.2.3 Mae'r gwaith yn cymryd amcanion strategol y Cyngor a Dinas-ranbarth Bae Abertawe i ystyriaeth. Mae hyn yn galluogi asesiad o sut y gellir herio ac addasu tueddiadau presennol i sicrhau cymaint â phosibl o gyfleoedd twf economaidd.


2.2.4 Amcan arall sy'n rhan o Gytundeb Dinas-ranbarth Bae Abertawe yw menter sgiliau a thalent. Bydd hyn yn darparu addysg a hyfforddiant i gefnogi'r gweithlu a fydd yn darparu sgiliau sector penodol i fodloni galw yn y sectorau Digidol, Gwyddorau Bywyd a Llesiant, Ynni a Gweithgynhyrchu Clyfar. Bydd y fenter yn cyflawni swyddogaeth allweddol felly o ran galluogi Sir Gaerfyrddin i fodloni ei hamcanion twf economaidd.

2.3 PERFFORMIAD ECONOMAIDD SIR GAERFYRDDIN

GWERTH YCHWANEGOL GROS A GWERTH YCHWANEGOL GROS Y PEN

- 2.3.1 Gellir mesur perfformiad economaidd Sir Gaerfyrddin yn ystod y blynyddoedd diwethaf orau trwy archwilio data gwerth ychwanegol gros, a data gwerth ychwanegol gros y pen a gasglwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn benodol. Mae gwerth ychwanegol gros y pen yn ddangosydd da o gynhyrchiant neu faint o gyfoeth economaidd a gynhrychir gan bob person.
- 2.3.2 Mae Ffigur 2-2 isod yn dangos tueddiadau gwerth ychwanegol gros y pen ar gyfer Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Cymru a'r DU. Nid yn unig y mae gwerth ychwanegol gros y pen yn Sir Gaerfyrddin y tu ôl i'r hyn mewn manau eraill (mae gwerth ychwanegol gros y pen yn llai na 60% o'r gwerth yn y DU yn ei chyfanrwydd, er enghraifft), mae'r bwlch i gyfartaledd y DU wedi bod yn tyfu dros amser.
- 2.3.3 Ym 1997, roedd gwerth ychwanegol gros y pen Sir Gaerfyrddin £6,440 yn is nag yn y DU, tra bod y bwlch wedi cynyddu i £10,440 erbyn 2015. Mae hyn yn dangos yn eglur bod angen i'r sir barhau ei phwyslais ar drawsnewid economaidd a darparu sgiliau a thir cyflogaeth priodol i fodloni'r amcanion hyn er mwyn i'r sir gau'r bwlch cynhyrchiant.
- 2.3.4 Y risg i'r sir yw y bydd y bwlch yn parhau i dyfu heb yr ymyriadau hyn, gan ei gwneud yn anodd i sectorau a busnesau newydd ffynnu.


Ffigur 2-2 Gwerth Ychwanegol Gros y Pen (Cynhyrchiant)



CYFLOGAETH A'R FARCHNAD LAFUR

- 2.3.5** Yn 2016, roedd cyfanswm o 84,700 o bobl wedi'u cyflogi yn Sir Gaerfyrddin. Hon oedd yr ail flwyddyn yn olynol pan roedd y cyfanswm wedi cynyddu 4% o'i gymharu â'r flwyddyn gyntaf, ac mae'n ddangosydd da o'r twf sydd eisoes yn digwydd yn y sir.
- 2.3.6** Dangosir y tueddiad o ran cyfanswm y gyflogaeth yn Ffigur 2-3. Yr hyn sy'n amlwg yw 1) y twf cyson a welwyd yn y cyfnod cyn y dirwasgiad economaidd yn 2009, 2) effaith y dirywiad a 3) y dychweliad graddol i dwf ar ôl 2009.
- 2.3.7** Mae Ffigur 2-3 hefyd yn dangos sut y dilynodd dwy flynedd olynol o dwf 4% (yn 2015 a 2016) bedair blynedd o dwf 'safonol' â mân-ostyngiad yn 2014.


Ffigur 2-3 Tueddiadau Cyflogaeth 2004 - 2015



- 2.3.8** Ceir dosbarthiad da ar draws y gwahanol sectorau cyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin. Yn 2015, er enghraifft, roedd dros 25% o'r cyfanswm wedi eu cyflogi yn y sector cyhoeddus (e.e. mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol). Roedd 8,000 o swyddi (10% o'r cyfanswm) yn y sector gweithgynhyrchu ac roedd 12,000 (15% o'r cyfanswm) wedi eu cyflogi yn y sector cyfanwerthu a manwerthu.
- 2.3.9** Mae hyn yn dynodi pwyslais ar weithgareddau economaidd 'traddodiadol' yn y sir a chyda'r broses o drawsnewid yr economi eisoes ar y gweill, bydd disgwyl i'r cyfrannau hyn newid dros amser wrth i fwy o bwyslais gael ei roi ar rai o'r sectorau gwerth uwch, yn enwedig yn y sectorau, digidol, creadigol a gwyddorau bywyd.
- 2.3.10** Mae hunangyflogaeth hefyd yn gyfran uchel o'r cyfanswm yn Sir Gaerfyrddin gyda dros 15,200 o bobl wedi'u categorio'n hunangyflogedig yn 2015 ac yn 2016. Adlewyrchir y tueddiad hwn o fusnesau bach neu 'ficro' fusnesau yn nata NOMIS y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac fe'i crynhoir yn Ffigur 2-4.
- 2.3.11** Mae'r ffigur yn dangos yn eglur bod gan dros 90% o fusnesau / mentrau sector preifat yn y sir 9 neu lai o gyflogaeth.

- 2.3.12 Mae ystadegau a gasglwyd ar y mathau o fusnesau yn Sir Gaerfyrddin yn dynodi bod 'amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota' yn dal i fod fwyaf blaenllaw gyda 28% o'r holl fusnesau yn y categori hwn. Mae hyn i'w ddisgwyl o ystyried yr ardaloedd amaethyddol mawr yn y sir.

Ffigur 2-4 Proffil Maint Busnesau



2.4 DYHEADAU TWF A SECTORAU CYFLOGAETH YN SIR GAERFYRDDIN

- 2.4.1 Mae'r Cynllun Adfywio Strategol ar gyfer Sir Gâr yn nodi'r gwahanol sectorau ledled y sir a'r rhan bwysig y byddant yn ei chwarae mewn datblygiad economaidd yn y dyfodol. Caiff pob sector ei adolygu yn ei drefn isod.
- 2.4.2 Fel yr adroddwyd eisoes, mae Sir Gaerfyrddin hefyd yn rhan o Ddinas-ranbarth Bae Abertawe y mae ei amcanion economaidd yn cynnwys:
- Twf, cadw ac arbenigedd busnes;
 - Datblygu sgiliau a hyfforddiant;
 - Sicrhau bod cymaint o swyddi â phosibl yn cael eu creu;
 - Datblygu economi seiliedig ar wybodaeth sy'n meithrin arloesedd; a
 - Lleoedd unigryw a seilweithiau cystadleuol.
- 2.4.3 Cyn trafod meysydd unigol a'u potensial cyflogaeth, mae'n bwysig disgrifio'r rhan y bydd datblygu seilwaith a sgiliau busnes yn ei chwarae yn llwyddiant economaidd Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol.

SEILWAITH A THRAFNDIAETH

- 2.4.4 O fewn y sir, rhoddwyd pwyslais sylweddol ar gysylltedd cefn gwlad lleol a hygyrchedd i gyflogaeth. Mae seilwaith trafndiaeth yn un o brif alluogwyr gweithgarwch economaidd ac yn cynorthwyo sectorau eraill o'r economi.
- 2.4.5 Datblygwyd seilwaith strategol a lleol i hybu twf a gweithgarwch economaidd trwy adeiladu cysylltiadau gwell. Un egwyddor allweddol yw gwella mynediad rhwng aneddiadau allweddol a safleoedd cyflogaeth. Mae Dinas-ranbarth Bae Abertawe hefyd yn hwyluso buddsoddiad mewn prosiectau trafndiaeth sy'n cefnogi'r egwyddor hon.
- 2.4.6 Mae enghreifftiau o brosiectau yn Sir Gaerfyrddin a fydd yn cefnogi datblygiad economaidd yn cynnwys:
- Ffordd Gyswllt Cross Hands: bydd yn ehangu mynediad at safleoedd cyflogaeth strategol allweddol;
 - Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin: mynediad at yr ardal academaidd a chyfryngau newydd (i gefnogi'r buddsoddiad S4C sydd ar fin dod); a
 - Gwell cysylltedd gwledig: mae cysylltedd i drefi marchnad a chytrefi gwledig y sir yn hanfodol i ddatblygiad economaidd yn y dyfodol.
- 2.4.7 Mae prosiectau trafndiaeth pwysig eraill a fydd yn chwarae rhan fawr mewn datblygiad economaidd yn y dyfodol yn cynnwys cynlluniau Ffordd Osgoi Rhydaman a Llandeilo.

BUSNES A SGILIAU

- 2.4.8 Mae demograffeg gweithlu'r sir wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wrth i dwf cryf ddod i'r amlwg yn y sectorau 'Diwydiannau Creadigol', 'Amgylchedd Ynni' a 'Bwyd a Ffermio'.
- 2.4.9 Mae gwaith ymchwil yn nodi bod rhai heriau cyffredinol o ran sgiliau ar draws y sectorau Bwyd, Twristiaeth a Chreadigol. Mae'r mwyaf nodedig yn cynnwys arweinyddiaeth a rheolaeth, gweinyddiaeth fusnes a gwerthu a marchnata. Fodd bynnag, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweithio'n uniongyrchol â chyflogwyr a darparwyr addysg allweddol yn y sir i ddatblygu sgiliau yng ngweithlu'r dyfodol.
- 2.4.10 Ers 2008, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi llwyddo i ddarparu grant i fusnesau yn y sir yn dod i gyfanswm o fwy na £2 filiwn, gan ysgogi £3.2 miliwn arall mewn buddsoddiad preifat a chreu dros 400 o swyddi a diogelu 1,800 o swyddi.
- 2.4.11 Mae'r Fenter Sgiliau a Thalent (sy'n rhan o Gytundeb Dinas-ranbarth Bae Abertawe) a gyhoeddwyd yn ddiweddar hefyd o bwysigrwydd hanfodol yma. Bydd y Fenter yn gweithio mewn cydweithrediad â'r prosiectau Cytundeb Dinas i nodi'r sgiliau penodol sydd eu hangen i gefnogi datblygiad yn y rhanbarth. Gan weithio gyda darparwyr hyfforddiant sector cyhoeddus a phreifat, bydd y prosiect 1) yn datblygu a darparu cyrsiau, prentisiaethau, 2) yn ehangu darpariaeth israddedig/ôl-raddedig a 3) ymgysylltu ag ysgolion i sicrhau y gall pobl leol elwa o gyfleoedd cyflogaeth lleol.
- 2.4.12 Bydd y Fenter o bwysigrwydd allweddol yn Sir Gaerfyrddin felly, wrth iddi ddatblygu'r sgiliau a'r profiad sy'n ofynnol ar gyfer y twf mewn sectorau allweddol.

2.5 SAFLEOEDD CYFLOGAETH ALLWEDDOL

2.5.1 Mae safleoedd allweddol â photensial sylweddol i gefnogi twf yn Sir Gaerfyrddin wedi eu grwpio i'r categorïau canlynol fel y nodir yn nogfen 'Trawsnewidiadau':

- Safleoedd adfywio strategol;
- Prif drefi; a
- Threfi marchnad bywiog.

SAFLEOEDD ADFYWIO STRATEGOL

2.5.2 Nodir safleoedd adfywio strategol fel safleoedd busnes a chyflogaeth strategol potensial uchel yn Sir Gaerfyrddin. Mae Llynnoedd Delta, y Goleudy a Pharth Strategol Cross Hands oll yn ymddangos yn y CDLI, er enghraifft (yn y paragraffau canlynol yn disgrifio pob un o'r manau hyn, darperir cod cyfeirnod perthnasol y CDLI).

LLYNNOEDD DELTA

2.5.3 Mae Llynnoedd Delta yn rhan o Barth Strategol De Llanelli (Safle 3, GA2/MU9). Mae wedi ei leoli i'r de o Lanelli nesaf at y brif Ffordd Gyswllt Arfordirol sef y porth i Lain Arfordirol Sir Gaerfyrddin. Ystyrir y safle fel lleoliad parc busnes mwyaf deniadol Morlan Elli ac mae'n gymysgedd o ddatblygiadau masnachol a busnes. Rhagwelir y bydd datblygiadau swyddfa dau lawr yn Llynnoedd Delta, ynghyd ag ardal ddynodedig ar gyfer y sector gofal iechyd. Yn gyfan gwbl, mae'r potensial yn bodoli ar gyfer tua 275,000 troedfedd sgwâr o arwynebedd llawr. Mae datblygiad y Pentref Llesiant a Gwyddorau Bywyd newydd wedi cychwyn yn Llynnoedd Delta a rhagwelir y bydd yn creu hyd at 2,000 o swyddi ac yn rhoi hwb o £467 miliwn i'r economi dros 15 mlynedd.

Y GOLEUDY

2.5.4 Lleoliad busnes ar gyrion Llanelli yw'r Goleudy (rhan o Dafen, Safle 4, GA2/E1), yn agos at Gyffordd 48 yr M4. Mae'r safle yn cynnig arwynebedd swyddfa i 150 o bobl ac yn gartref i rai o gwmnïau mwyaf blaenllaw Sir Gaerfyrddin. Ceir safle tir datblygu arall yn y Goleudy i gefnogi arloesedd a denu datblygiadau sector allweddol fel Gweithgynhyrchu Uwch, Gwyddorau Bywyd, gwasanaethau Proffesiynol a Masnachol / prosiectau arbennig.

DWYRAIN CROSS HANDS

2.5.5 Mae safle Dwyrain Cross Hands wedi ei leoli ochr yn ochr â Pharc Busnes Cross Hands â mynediad uniongyrchol at yr A48 a'r M4. Mae'r safle tua 19 hectar o faint a rhagwelir mai hwn fydd y Parth Cyflogaeth mawr nesaf yn y sir. Caiff buddsoddiadau eu targedu at sectorau datblygu allweddol gyda gweledigaeth i greu parc busnes modern â phroffil 'gwyrdd'.

PARC BWYD CROSS HANDS

2.5.6 Mae Parc Bwyd Cross Hands yn gartref i rai o gynhyrchwyr bwyd mwyaf y DU. Mae'r safle yn cyflogi dros 1,000 o bobl ac yn tyfu'n barhaus gydag ehangiad pellach. Mae wedi ei leoli'n gyfleus oddi ar yr M4 ac mae cyflenwyr wedi eu lleoli'n gyfagos. Mae'r Parc Bwyd yn rhan o Barth Twf ehangach Cross Hands, a chyda buddsoddiad ar y safle o fwy na £50 miliwn ac yn codi, mae wedi atgyfnerthu lle Sir Gaerfyrddin fel sir cynhyrchu bwyd.

ARDALOEDD TWF

2.5.7 Mae CDLI Sir Gaerfyrddin yn nodi tair ardal dwf a disgrifir y rhain yn fanwl isod.

CAERFYRDDIN

2.5.8 Mae tref Caerfyrddin wedi ei lleoli'n strategol wrth gyffordd yr A48 a'r A40 ac mae ar gyswllt rheilffordd Llundain i Abergwaun yng nghanol Sir Gaerfyrddin. Fel y brif ganolfan weinyddol ar gyfer Sir Gaerfyrddin, mae'r dref yn gyflogwr mawr ac yn ganolfan fanwerthu ranbarthol. Yn 2010, er enghraifft, agorodd canolfan fanwerthu Rhodfa'r Santes Catrin, gan gynnig dros 2,270 m² o le masnachol. Mae Caerfyrddin hefyd yn gartref i Gampws Prifysgol mawr.

LLANELLI

2.5.9 Bu newid economaidd sylweddol yn Llanelli dros y degawdau diwethaf gyda datblygiad ym meysydd tai, manwerthu, hamdden a swyddfeydd masnachol. Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi prynu adeiladau gwerth £1.5 miliwn yng nghanol y dref i fynd i'r afael â thlodi trwy greu swyddi, annog datblygiad sgiliau, gwella tai, darparu cyfleusterau a helpu pobl i mewn i waith. Mae'r Cyngor yn targedu adeiladau allweddol yng nghanol y dref fel y gall reoli eu hailddatblygiad a phennu rhenti fforddiadwy a fydd yn denu busnesau a thenantiaid newydd. Dyrannwyd £1 filiwn arall i adfywio'r dref yn ddiweddar.

RHYDAMAN / CROSS HANDS

2.5.10 Rhydaman yw'r trydydd anheddiad mwyaf yn Sir Gaerfyrddin. Mae wedi ei leoli ar y groesffordd rhwng yr A474, A483 a Stryd y Cei. Caiff y drefn ei gwasanaethu hefyd gan reilffordd Calon Cymru. Mae'r dref yn cynnig cyfleusterau ymwelwyr a manwerthu a bu buddsoddiad sylweddol mewn meysydd fel gwelliannau i strydluniau, tirluniau a blaen siopau.

CANOLFANNAU GWASANAETH A CHANOLFANNAU GWASANAETH LLEOL

2.5.11 Ceir cymysgedd o ganolfannau gwasanaeth a chanolfannau gwasanaeth lleol yn Sir Gaerfyrddin. Mae safleoedd cyflogaeth yn y manau hyn wedi eu targedu ar gyfer gwelliant, o ran ailddatblygu ffisegol a mentrau cymorth busnes i gyflymu gweithgarwch economaidd. Bwriedir gwella cysylltedd hefyd, o safbwynt ffisegol a rhith.

2.5.12 Dangosir y canolfannau yn Tabl 2-1 isod.

Tabl 2-1 Canolfannau Gwasanaeth a Chanolfannau Gwasanaeth Lleol

<i>Canolfannau Gwasanaeth</i>	<i>Canolfannau Gwasanaeth Lleol</i>
Llanymddyfri	Brynaman
Llandeilo	Glanyfferi
Castellnewydd Emlyn	Glanaman/y Garnant
Sanclêr	Hendy
Hendy-gwyn ar Daf	Cydweli
Porth Tywyn/Pen-bre	Talacharn
	Llangadog
	Llanybydder
	Pont-iets/Meinciau/Pont-henri
	Pontyberem/Bancffosfelen
	Trimsaran

- 2.5.13 Cyfraddau adeiladau masnachol gwag is a chynnydd i nifer yr ymwelwyr yw'r canlyniadau a ddisgwylir o'r mentrau hyn. Hefyd, bydd buddsoddiad cyhoeddus a phreifat yn cael ei ysgogi, bydd swyddi yn cael eu creu, bydd pobl yn cael eu cynorthwyo i mewn i waith a bydd lefelau tlodi yn cael eu gostwng.

2.6 PROSIECTAU TRAWSNEWIDIOL ALLWEDDOL

- 2.6.1 Bu trawsnewid yn Sir Gaerfyrddin yn ystod y blynyddoedd diwethaf a'r uchelgais yw adfywio'r sir i sicrhau'r sail ar gyfer economi gref ac iach. Er mwyn cefnogi hyn, mae Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi cynllunio chwe phrosiect trawsnewidiol allweddol.
- 2.6.2 Mae'r sectorau a dargedwyd yn cynnwys y diwydiannau creadigol, twristiaeth, bwyd-amaeth, gweithgynhyrchu uwch, ynni â'r amgylchedd, gwasanaethau ariannol a phroffesiynol.
- 2.6.3 Disgwylir i'r prosiectau greu dros 5,000 o swyddi newydd a chau'r bwlch cynhyrchiant rhwng Sir Gaerfyrddin a'r DU, gan gyrraedd 90% o werth ychwanegol gros cyfartalog y DU. Mae hyn hefyd yn alinio'n dda â Strategaeth y CDLI lle mae safleoedd strategol penodol wedi cael eu nodi ac wedi eu cynnwys ym Mholisi Strategol SP4.
- 2.6.4 Fel y disgrifiwyd, dynodwyd y safleoedd yn y gwahanol leoedd isod trwy gymryd eu maint, eu natur a'u lleoliad strategol i ystyriaeth.

RHYDAMAN

- 2.6.5 Tref marchnad yw Rhydaman, â photensial mawr ar gyfer twf economaidd. Cydnabyddir bod gwelliannau trafnidiaeth ar eu pen eu hunain yn dod â manteision sylweddol o ran arbedion amser teithio a hygyrchedd cyflogaeth. Cydnabyddir buddsoddiadau mewn arwynebedd cyflogaeth a safleoedd porth hefyd fel cyfranwyr at dwf gan gynyddu arwynebedd cyflogaeth, defnydd hamdden a thai.
- 2.6.6 Mae gan Rydaman Dasglu hefyd sydd â "chynllun gweithredu" cyffredinol ar waith i ganolbwyntio ar adeiladau, safleoedd ac eiddo allweddol. Mae'r Tasglu hefyd yn trafod materion amgylcheddol a mynediad yn ogystal â marchnata, hyrwyddo a digwyddiadau. O ran pobl a hyfforddiant, ceir mentrau adfywio a chyllid benthyciadau ar waith i ddod ag adeiladau gwag neu nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol yn ôl i ddefnydd cyflogaeth.

CAERFYRDDIN

- 2.6.7 Er bod Caerfyrddin wedi bod yn destun gwaith adfywio mawr yn y blynyddoedd diwethaf (gyda sawl datblygiad newydd yn cael eu rhoi ar waith), ceir sawl prosiect â chyfle i ymgymryd â nhw o hyd. Rhagwelir y bydd y rhain yn cael eu rhoi ar waith yn y dyfodol agos, yn enwedig y datblygiad mawr yn yr Egin lle bydd cyfran fawr o weithgareddau S4C yn adleoli i'r safle campws. Bydd hyn wedyn yn gweithredu fel y ddeorfa / catalydd ar gyfer canolfan greadigol a digidol a fydd yn cael ei sefydlu yno. Disgrifir yr Egin yn fwy manwl isod.

YR EGIN

- 2.6.8 Rhagwelir y bydd yr Egin, canolfan gyfryngau a diwylliant newydd, yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar Gaerfyrddin. Yn seiliedig ar yr arwynebedd swyddfa a gwaith yn ogystal â datblygiad pellach posibl, bydd tua 200 o swyddi llawn amser yn cael eu creu a bydd y gyflogaeth uniongyrchol yn cefnogi 500 o swyddi eraill yn y rhanbarth.

GORLLEWIN CAERFYRDDIN

- 2.6.9 Mae ffordd gswllt newydd wedi ei chynllunio yng Ngorllewin Caerfyrddin a fydd yn cynyddu symudiadau tuag at y datblygiadau newydd sy'n gysylltiedig â'r Egin ac S4C. Bydd y buddsoddiad hwn yn cynyddu'r stoc dai gyda 1,200 o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu ar hyd y ffordd newydd.

PIBWRLWYD

- 2.6.10 Mae Campws Coleg Pibwrlwyd yn rhan o Brosiect Trawsnewidiol ehangach Caerfyrddin. Yn strategol, mae'r safle yn ardal allweddol ar gyfer twf cyflogaeth i Gaerfyrddin yn y dyfodol. Mae'r safle yn cynnig y potensial i atgyfnerthu ac ailddatblygu elfennau presennol Coleg Sir Gâr a pharc busnes.

LLAIN ARFORDIROL SIR GAERFYRDDIN

- 2.6.11 Mae Llain Arfordirol Sir Gaerfyrddin yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad economaidd, yn enwedig trwy gyfleoedd masnachol a hamdden, gan ddenu ymwelwyr i'r ardal. Llynnoedd Delta, Doc y Gogledd a Phorth Tywyn yw'r tair blaenoriaeth tymor hwy i Gyd-fenter Morlan Elli gyda buddsoddiadau wedi eu cynllunio ar safleoedd ar gyfer defnydd busnes, masnach, hamdden, manwerthu a phreswyl.

PARTH TWF CROSS HANDS

- 2.6.12 Mae Parth Twf Cross Hands wedi ei gysylltu'n agos â'r sectorau bwyd a gweithgynhyrchu uwch. Pwysleisiwyd yn y gwerthusiad o ddatblygiad seilwaith Dwyrain Cross Hands (a gynhaliwyd yn 2015), bod tenant 'angor' yn y sector gwyrdd yn hanfodol, yn ogystal â chymorthdaliadau llywodraeth ganolog hael i annog cwmnïau i adleoli i Cross Hands.
- 2.6.13 Nododd gwerthusiad 2015 hefyd y gallai Cross Hands sicrhau llwyddiant trwy gymryd yr haen uchaf o fusnesau lleol i greu crynodiad ar draws sectorau gwerth uchel. Mae dadansoddiadau o dueddiadau economaidd yn awgrymu bod adferiad cryf ar y gweill yn y rhanbarth erbyn hyn, er gwaethaf crebachiad yn yr economi leol ers 2010.
- 2.6.14 O fewn hyn, mae'r sector proffesiynol, gwyddonol a thechnegol yn sefyll allan oherwydd ei botensial twf uchel a'i dueddiad i gynhyrchu manteision economaidd a swyddi gwerth uchel. Trwy ffurfio mas critigol o fusnesau o'r sector hwn a sectorau ategol, bydd safle Cross Hands mewn sefyllfa well i ddenu mewnfuddsoddiad.
- 2.6.15 Y sectorau sy'n cael eu targedu yn rhan o'r ymgyrchoedd marchnata yw Ynni a'r Amgylchedd, Creadigol, Gweithgynhyrchu Uwch, Ariannol a Phroffesiynol yn ogystal â Thechnoleg Bwyd-Amaeth.
- 2.6.16 Nodwyd pum parth datblygu ym Mharth Twf Cross Hands a disgrifir pob un o'r rhain isod.

PARTH BWYD – PARC BWYD CROSS HANDS

- 2.6.17 Ceir lle i wella'r parc bwyd a manteisio ar y buddsoddiad sylweddol a wnaed hyd yn hyn.

PARTH BUSNES – PARC BUSNES CROSS HANDS

- 2.6.18 Mae'r parth busnes yn safle cyflogaeth sylweddol lle mae tua 800 o bobl yn cael eu cyflogi. Mae'n cynnwys 38 hectar o ddatblygiad defnydd cymysg, yn cefnogi manwerthwyr mawr a sefydliadau masnachol, ac mae pedwar hectar arall ar gael ar gyfer manwerthu a thwf economaidd.

PARTH CYFLOGAETH – SAFLE CYFLOGAETH STRATEGAETH DWYRAIN CROSS HANDS

- 2.6.19 Bwriedir i'r safle hwn gynnig arwynebedd i fusnesau mewn sectorau allweddol fel gwyddorau bywyd, ariannol a phroffesiynol, gweithgynhyrchu uwch, amgylcheddol, creadigol a thechnolegau bwyd-amaeth. Mae'n cael ei adeiladu mewn dau gam. Mae Cam 1 wedi ei gwblhau a bydd yn cynnig dros 17,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr ar draws 8.5 hectar o dir. Disgwylir i Gam 1 greu tua 650 o swyddi a rhagwelir y bydd 500 arall ar gyfer Cam 2. Bydd y safle yn gymysgedd o ddefnyddiau diwydiannol a swyddfa ansawdd uchel, a gwestai o bosibl.

PARTH DEFNYDD CYMYSG – GORLLEWIN CROSS HANDS

- 2.6.20 Ceir 21 hectar o dir defnydd cymysg yng Ngorllewin Cross Hands ac mae wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gyda disgwyliaidau o £25 miliwn o fuddsoddiad sector preifat.

PARTH DEFNYDD PRESWYL A CHYMYSG – GWAITH BRICS EMLYN

- 2.6.21 Ailddatblygiad defnydd cymysg yw hwn sy'n cynnwys cynigion ar gyfer 250 o gartrefi ar safle 21 hectar. Disgwylir i'r safle elwa o gam dau arfaethedig ffordd gyswllt Cross Hands.

LLANELLI

- 2.6.22 Er y bu buddsoddiad sylweddol yn Llanelli yn y blynyddoedd diwethaf (yn enwedig yn y Pentref Llesiant yn Llynnoedd Delta), mae mwy o gyfle i wella canol y dref yn bodoli a rhagwelir y bydd buddsoddiadau o £60 miliwn yng nghanol y dref. Mae sawl prosiect buddsoddi wedi ei gynllunio yn darparu tai, cyfleoedd manwerthu a gwelliannau seilwaith. Mae'r dref hefyd wedi cael ei gwneud yn Ardal Gwella Busnes, gyda chronfa fenthyciad o £700,000 yn cael ei gwneud ar gael i'r gymuned fusnes (i wella eu hadeiladau, er enghraifft).

YR ECONOMI WLEDIG

- 2.6.23 Gan fod dros 40% o boblogaeth y sir mewn ardaloedd gwledig, mae'r economi wledig yn cael dylanwad sylweddol ar amcanion adfywio ehangach. Nodir y canlynol fel materion allweddol a allai herio twf cyflogaeth a ffyniant yn Sir Gaerfyrddin wledig:
- Nifer uwch o fusnesau bach a chanolig eu maint gyda 87% o fusnesau yn cyflogi llai na 9 o gyflogaion;
 - Caiff cyfrannau uwch eu cyflogi mewn gwasanaethau gwerth ychwanegol isel fel amaethyddiaeth;
 - Mae ymfudiad pobl ifanc dawnus a medrus yn broblem allweddol i ardaloedd gwledig sydd â chyfran is o bobl 20-39 mlwydd oed;
 - Prinder arwynebedd cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig; ac
 - Amlygir pob ward wledig, ac eithrio tref Caerfyrddin a Llandeilo yn 30% uchaf yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf o ran mynediad at wasanaethau.

3 CYFLENWAD PRESENNOL O ARWYNEBEDD CYFLOGAETH

3.1 CYFLWYNIAD

- 3.1.1 Yn ogystal â darparu cyflenwad da o dir cyflogaeth yn angenrheidiol i sicrhau'r manteision o ddatblygiadau busnes newydd, mae hefyd yn gweithredu fel cynhyrchydd twf trwy ddenu mwy o fuddsoddiad, ac felly mwy o gyfleoedd cyflogaeth a chynnyrch domestig gros.
- 3.1.2 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gyfrifol am sicrhau bod tir cyflogaeth digonol ar gael i ddiwallu angen a nodwyd. Yn fwy penodol, caiff Polisi Cynllunio yng Nghymru ei grynhoi yn Ffigur 3-1.

Ffigur 3-1 Polisi Cynllunio yng Nghymru (Arg.9), Adran 7.5.1

Dylai Cynlluniau Datblygu geisio darparu'r arwynebedd cywir o dir a'r cymysgedd cywir o safleoedd o ran ansawdd i ateb galw'r farchnad am dir datblygu economaidd.

- 3.1.3 Mae'r bennod hon yn cynnwys disgrifiad o dueddiadau cyflenwi arwynebedd cyflogaeth diweddar yn ogystal â disgrifiad o'r cynlluniau a'r polisiau allweddol sy'n sail i gyflenwi tir. Mae'r rhain yn cynnwys y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) a fabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2014, yr Adolygiad Tir Cyflogaeth o 2016 a'r ail Adroddiad Monitro Blynyddol lle mae data ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017 wedi cael eu darparu.


3.2 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL (CDLL), 2014

- 3.2.1 Yn y CDLI diweddaraf, neilltuwyd tir digonol ar gyfer 111.13 hectar yn cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau tir B1, B2 a B8 yn ogystal â defnyddiau sui generis. Mae dadansoddiad y dyraniad hwn wedi ei gynnwys o dan Bolisi SP7 yn y CDLI (Cyflogaeth – Dyraniadau Tir). 2006 tan 2021 oedd cyfnod y CDLI.
- 3.2.2 Mae lleoliad y safleoedd a neilltuwyd yn adlewyrchu pwysigrwydd yr Ardaloedd Twf (Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman / Cross Hands) gan y neilltuwyd 95.15 hectar iddynt o'r cyfanswm o 111.13 hectar. Dosbarthwyd y 15.98 hectar a oedd yn weddill ar draws yr aneddiadau eraill.
- 3.2.3 Ar adeg mabwysiadu'r CDLI ym mis Rhagfyr 2014, roedd y cyflawniadau a'r ymrwymadau canlynol wedi cael eu gwneud:
- Cyflawniadau: 5.7 hectar;
 - Cyflawniadau (nad oeddent yn rhan o'r ffigur a ddyrannwyd): 23.65 hectar;
 - Ymrwymadau: 16.18 hectar; a
 - Tir cyflogaeth gweddilliol: 89.25 hectar.
- 3.2.4 Felly ar adeg ychydig dros hanner ffordd trwy gyfnod y CDLI, roedd ychydig dros 89 hectar o'r 111 hectar a neilltuwyd yn dal i fod yn weddilliol.

3.3 ADOLYGIAD TIR CYFLOGAETH, 2016

- 3.3.1 Mae'r Adolygiad Tir Cyflogaeth yn nodi'r cyflenwad cyfredol o dir cyflogaeth yn seiliedig ar wybodaeth a dderbyniwyd gan bartneriaid corfforaethol ym meysydd Datblygu Economaidd ac Eiddo Corfforaethol.
- 3.3.2 Defnyddiwyd yr Adolygiad Tir Cyflogaeth cyntaf hwn i ddarparu tystiolaeth i ategu Adroddiadau Monitro Blynyddol y CDLI a bydd yn cyfrannu at yr adolygiad pedair blynedd o'r CDLI. Mae'n ofynnol paratoi Adroddiadau Monitro Blynyddol ar gyfer pob blwyddyn hyd at yr adolygiad pedair blynedd a chyhoeddwyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf ym mis Hydref 2016 (ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016).
- 3.3.3 Mae'r Adolygiad Tir Cyflogaeth yn gwahaniaethu rhwng safleoedd presennol ac arfaethedig. Caiff safleoedd presennol eu dadgyfuno i adeiladau sy'n cael eu defnyddio, adeiladau gwag a thir nad yw'n addas ar gyfer datblygu. Mae adeiladau sy'n cael eu defnyddio yn cynnwys tir ar gyfer defnydd B dosbarthiadau B1, B2 a B8. Serch hynny, cydnabyddir bod dosbarthiadau defnydd eraill nad ydynt yn B wedi eu cysylltu'n agos â defnydd cyflogaeth ac felly caiff y rhain eu cynnwys hefyd. Mae Ffigur 3-2 yn dangos y dyraniad o dir presennol yn ôl Adolygiad Tir Cyflogaeth 2016.

Ffigur 3-2 Tir Presennol



3.3.4 Dangosir y dadansoddiad o dir presennol fesul y gwahanol Ardaloedd Twf yn Tabl 3-1. Mae'r tabl hefyd yn dangos y tir a neilltuwyd ar gyfer datblygiadau cyflogaeth arfaethedig.

Tabl 3-1 Dadansoddiad Cyfanswm Arwynebedd y Tir (hectarau)

	DEFNYDD CYFLOGAETH (B1, B2, B8)	DEFNYDD NAD YW'N DDEFNYDD B	ADEILADAU GWAG	TIR ANWEITHREDOL	CYFANSWM Y TIR PRESENNOL	TIR ARFAETHEDIG	CYFANSWM Y TIR
Caerfyrddin	2.96	2.33	0.49	20.61	26.39	25.33	51.72
Llanelli	37.77	5.09	2.2	169.17	214.23	32.58	246.81
Rhydaman	13.935	3.06	0.495	68.17	85.66	37.24	122.9
Canolfannau Gwasanaeth	8.44	4.71	0.82	35.81	49.78	11.57	61.35
Canolfannau Gwasanaeth Lleol	4.28	1.71	0.68	27.2	33.87	1.21	35.08
Cymunedau Cynaliadwy	3.5	0.75	0.96	21.93	27.14	3.20	30.34
	70.89	17.65	5.645	342.89	437.07	111.13	548.2

3.3.5 Fel y dangosir yn Tabl 3-1, cynlluniwyd i 111.13 hectar o dir cyflogaeth a ddyrannwyd ym Mholisi SP7 gael ei ddatblygu yn ystod cyfnod y CDLI.

3.3.6 Yn rhan o'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn archwiliad y CDLI, roedd 30.27 hectar o'r safleoedd hynny a ddyrannwyd fel safleoedd cyflogaeth arfaethedig yn y Cynllun Datblygu Unedol wedi cael eu darparu at ddibenion cyflogaeth. Roedd hyn yn cynnwys darpariaeth cyflogaeth a ddarparwyd ar safleoedd defnydd cymysg. Roedd bron yr holl dir (95%) wedi ei ddarparu ac ar gael, gan adael cyfran fach iawn o dir a oedd newydd gael ei ddarparu yn wag.

3.3.7 Datgelodd gwaith paratoi ar gyfer yr Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf bod y niferoedd a oedd yn manteisio ar dir cyflogaeth ar safleoedd a ddyrannwyd gan y CDLI wedi parhau i gynyddu ers mabwysiadu'r CDLI ym mis Rhagfyr 2014.

3.3.8 Cyflwynodd yr Adolygiad Tir Cyflogaeth darged monitro blynyddol / interim ar gyfer darparu tir cyflogaeth, gan nodi bod 25% (neu 27.78 hectar o'r cyfanswm o 111.13 hectar) o dir a ddyrannwyd gan Bolisi SP7 naill ai wedi cael caniatâd cynllunio neu ar gael i'w ddatblygu yn ystod dwy flynedd gyntaf y CDLI ar ôl mabwysiadu'r Cynllun.

3.3.9 Dim ond yn yr un flwyddyn a oedd wedi ei chynnwys o dan yr Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf (1/4/15 i 31/3/16), rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 4.99 hectar o'r tir cyflogaeth a ddyrannwyd yn y CDLI. Roedd hwn yn cynnwys y canlynol:

- 1.63 hectar yn Llynnoedd Delta (rhan o Ardal Twf 2 yn Llanelli);
- 2.35 hectar ym Mharc Bwyd Gorllewin Cross Hands (rhan o Ardal Twf 3 yn Rhydaman a Cross Hands);
- 0.35 hectar ar Ystâd Ddiwydiannol Capel Hendre (rhan o Ardal Twf 3);
- 0.25 hectar ar Ystâd Ddiwydiannol Beechwood (rhan o'r ardal Haen 2 ger Llandeilo);
- 0.41 hectar ar dir nesaf at yr A40 (rhan o'r ardal Haen 2 ger Sanctlêr).

3.3.10 Yn ogystal â rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer yr arwynebeddau tir uchod, rhoddwyd caniatâd ar gyfer (neu datblygwyd) 19.94 hectar o dir yn y cyfnod cyn yr Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- 13.63 hectar ar draws wahanol safleoedd yn Ardal Twf Cross Hands (AT3);
- 1.11 hectar ar Ystâd Ddiwydiannol Capel Hendre (rhan o AT3);
- 0.34 hectar yn Heol Ddu, Tycroes (rhan o AT3);
- 3.28 hectar yn at Dyfatty (ardal Haen 2 o gwmpas Porth Tywyn);
- 0.74 hectar (cyfunol) yn yr ardal Haen 2 ger Sanclêr;
- 0.84 hectar (cyfunol) yn yr ardal Haen 2 ger Hendy-gwyn ar Daf.

3.3.11 O gymryd yr uchod i gyd, 24.93 hectar yw cyfanswm y tir a gafodd ganiatâd cynllunio a/neu a ddatblygwyd. Roedd hyn yn golygu, hyd at ac yn cynnwys yr Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf, bod bron i 90% o'r targed monitro blynyddol / interim ar gyfer dwy flynedd gyntaf y CDLI a fabwysiadwyd wedi cael ei fodloni. Mae'n bwysig goleddfu hyn, fodd bynnag, a nodir bod rhywfaint o'r 90% hwn yn dal i ddarparu'r cyflenwad tir cyflogaeth ar gyfer y dyfodol i bob pwrpas (ar safleoedd fel Dyfatty, Cross Hands a Chapel Hendre). Mae'r 90% yn cyfeirio at ganiatâd cynllunio, er enghraifft, yn hytrach na'r ddarpariaeth o adeiladau creu cyflogaeth gwirioneddol ar y safleoedd hyn hyd yma.

3.4 AIL ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL Y CDLL (1 EBRILL 2016 - 31 MAWRTH 2017)

3.4.1 Ar gyfer y gwaith a wnaed yn rhan o'r ail Adroddiad Monitro Blynyddol (y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2017), derbyniodd rhagor o dir ganiatâd cynllunio ar gyfer gweithgareddau cyflogaeth. Roedd hwn yn dod i gyfanswm o 2.42 hectar. Mae cyfuno'r ffigur hwn gyda'r cyfanswm o 24.93 hectar a nodwyd yn Adran 3.3 yn rhoi cyfanswm diwygiedig o ran tir a ddatblygwyd neu sydd â chaniatâd cynllunio o 27.35 hectar.

3.4.2 Mae hyn yn golygu bod 98% o'r targed monitro a nodwyd yn y CDLI wedi cael ei fodloni eisoes.

3.5 CASGLIADAU

- 3.5.1 Mae'r niferoedd sydd wedi manteisio ar dir cyflogaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf (o ran datblygiad gwirioneddol a chaniatâd a roddwyd) wedi dangos y pwysigrwydd o sicrhau y cyflenwir arwynebeddau tir digonol at y diben hwn.
- 3.5.2 Mae hyn yn arbennig o wir o ran safleoedd newydd wedi eu lleoli y tu allan i haenau uwch yr hierarchaeth defnydd tir gan y gall y rhain wneud cyfraniad sylweddol at yr aneddiadau a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mewn ardaloedd gwledig, er enghraifft, byddai cyfleoedd i fusnesau newydd ymsefydlu eu hunain yn cael eu cyfyngu'n ddifrifol pe na bai safleoedd ac adeiladau priodol ar gael.
- 3.5.3 Mae cyfradd y niferoedd sy'n manteisio ar gyfanswm y tir cyflogaeth a gyflenwyd hefyd yn gyfiawnhad o'r dyraniad diwygiedig yn CDLI Rhagfyr 2014. Cyflwynodd gwaith yr Astudiaeth Tir Cyflogaeth a wnaed yn 2010 ffigur o 34.1 hectar, er enghraifft. Yn seiliedig ar y dadansoddiad a gynhaliwyd ym Mhapur Diweddar Tir Cyflogaeth mis Mehefin 2013, diwygiwyd y dyraniad tir cyflogaeth yn y CDLI i 111.13 hectar.
- 3.5.4 Os bydd y gyfradd bresennol o ganiatâd a datblygiad yn parhau, bydd hyd yn oed y cyfanswm diwygiedig (uwch) yn cael ei gyrraedd ymhén ychydig flynyddoedd. Mae hyn yn golygu y bydd rhaid i'r cyflenwad o dir addas barhau ymhell i'r dyfodol er mwyn i'r sir fodloni ei amcanion a rhagolygon cyflogaeth sy'n cael eu hysgogi gan dwf. Rhoddir sylw mwy manwl i hyn ym Mhennod 4.

4 GOFYNION ARWYNEBEDD CYFLOGAETH YN Y DYFODOL

4.1 CYFLWYNIAD

Mae'r amcangyfrifon o ofynion arwynebedd cyflogaeth yn y dyfodol yn seiliedig ar 1) adolygiad cynhwysfawr o gyflogaeth fesul sector blaenoriaeth yn Sir Gaerfyrddin (a sut y bydd hyn yn newid dros amser o dan wahanol senarios twf) a 2) cydymffurfriad â'r canllawiau a ddefnyddir i gyfrifo gofynion tir cyflogaeth.

Mae'r tri senario twf fel a ganlyn:

- Twf sylfaenol: twf "cyflwr sefydlog";
- Twf canolog: Achos Canolog rhwng y senario Sylfaenol a'r senario "Wedi'i ysgogi gan dwf"; ac
- "Wedi'i ysgogi gan dwf": yn cymryd y sectorau mwy dynamig a 'gwerth uchel' yn economi Sir Gaerfyrddin i ystyriaeth.

Disgrifir y dull cyffredinol a fabwysiadir isod.

4.2 FFYNONELLAU DATA

4.2.1 Rhan fawr o'r ymarfer oedd casglu'r holl ddata ac ystadegau perthnasol i'w defnyddio yn u broses ragweld. Roedd yr amrywiaeth o adnoddau yn sylweddol ac yn cynnwys cymysgedd o ystadegau a gyhoeddwyd yn genedlaethol (y DU), data o Gymru a data 'lleol' o Sir Gaerfyrddin. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Data NOMIS y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyflogaeth hanesyddol yn Sir Gaerfyrddin (rhwng 2004 a 2016);
- Data Cyflogaeth Sector Blaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru (rhwng 2006 a 2015);
- Pan fo'n berthnasol, data o CDLI Rhagfyr 2014 CDLI, Adolygiad Tir Cyflogaeth 2016 a data'r Adroddiad Monitro Blynyddol;
- Trawsnewidiadau – Cynllun Adfywio Strategol ar gyfer Sir Gâr 2015-2030; a
- Gwahanol baramedrau o'r ddogfen/dogfennau canllaw.

4.3 CRONFA DDATA A MODEL RHAGWELD

4.3.1 Datblygwyd y rhagolygon gofynion tir o gronfa ddata sy'n cynnwys y canlynol:

- Cyfres o ddata hanesyddol yn trafod tueddiadau cyflogaeth (fesul sector) yn Sir Gaerfyrddin yn y gorffennol diweddar – mae hyn yn helpu i hysbysu'r rhagolygon cyflogaeth ar gyfer y dyfodol;
- Neilltuo'r naw sector cyflogaeth blaenoriaeth i gategori defnydd tir (B1 "swyddfa" a B2 "diwydiannol" yn bennaf);
- Rhagolygon o newid (twf) cyflogaeth blynyddol rhwng a) 2017 a 2032 (gorwel amser 15 mlynedd a b) 2017 a 2037 (gorwel amser 20 mlynedd); ac
- Ymgorffori paramedrau mewnbwn allweddol, gan gynnwys tybiaethau dwysedd tir (e.e. troedfeddi sgwâr fesul swydd cyfwerth ag amser llawn) a thybiaethau 'cymhareb plot' (e.e. troedfeddi sgwâr fesul hectar).

4.3.2 Datblygwyd y gronfa ddata (a'r model rhagweld) gyda'r gallu i brofi nifer o wahanol senarios. O ran cyflogaeth sectorol, y sectorau a nodwyd yw'r naw 'sector blaenoriaeth' a nodwyd gan Lywodraeth Cymru¹. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch;
- Adeiladu;
- Diwydiannau creadigol;
- Ynni a'r amgylchedd;
- Bwyd a ffermio;
- Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol;
- Technolegau gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh);
- Gwyddorau bywyd; a
- Thwristiaeth.

4.3.3 Mae pob un o'r rhain yn berthnasol i'r amcanion a ysgogir gan dwf yn Sir Gaerfyrddin, yn enwedig sectorau penodol fel y diwydiannau creadigol o ystyried y cynigion ar gyfer y 'clwstwr creadigol' yn yr Egin yng Nghaerfyrddin, y gwahanol gynigion sector digidol trwy Ddinas-ranbarth Bae Abertawe gyfan a'r cynigion gwyddorau bywyd mawr sydd wedi'u cynllunio ger Llanelli.

4.3.4 Cofnodir y cyfansymiau cyflogaeth ar gyfer y sectorau hyn rhwng 2006 a 2015 yn y gronfa ddata fel gwybodaeth 'sylfaenol' gyda'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol (e.e. o 2016 i 2017) sy'n deillio o'r wybodaeth hon.

4.4 METHODOLEG

4.4.1 Mae'r fethodoleg a fabwysiadwyd yn defnyddio canllawiau presennol fel y rheini ym Mhennod 7 "Datblygiad Economaidd Polisi Cynllunio Cymru". O gofio'r pwyslais ar amcanion cyflogaeth wedi'u hysgogi gan dwf, bu'r prif bwyslais ar gategorïau cyflogaeth B1 a B2 gan mai'r rhain sydd i'w gweld bennaf yn y naw sector blaenoriaeth.

4.4.2 Ar sail gam wrth gam, defnyddiwyd y fethodoleg ganlynol:

- Yn y lle cyntaf, roedd yn bwysig ar y cychwyn deall ac ailadrodd y dull a ddefnyddiwyd yn Astudiaeth Tir Cyflogaeth 2010 – roedd hyn er mwyn deall y ffordd yr oedd y canllawiau wedi cael eu defnyddio i ysgogi'r canlyniadau terfynol (gyda'r defnydd o'r "cymarebau plot" wedi eu darparu yn y canllawiau – h.y. cyfanswm y metrau sgwâr o arwynebedd cyflogaeth fesul hectar);
- Y sefyllfa "sylfaenol" o ran cyfansymiau cyflogaeth fesul sector yn 2017 (mae'r rhain yn seiliedig ar gyflogaeth a welwyd ledled y sir gyfan rhwng 2015 a 2016 – roedd hyn ychydig dros 4% - a thybiaeth ymarferol o 2.5% o dwf rhwng 2016 a 2017);
- Cyfrifo twf cyflogaeth sectorol dros ddau orwel amser: 2017 i 2032 (15 mlynedd) a 2017 i 2037 (20 mlynedd). Gall y model rhagweld brofi gwahanol dybiaethau twf blynyddol a 2.5% yw'r dybiaeth twf blynyddol safonol;

¹ "Priority Sector Statistics, 2016 (Sub-Wales) - New GVA data 2014" – mae'r tablau yn y llawlyfr hwn yn rhan o Fwletin Ystadegol 2016 yr Ystadegau Sector Blaenoriaeth a gyhoeddwyd ar 26 Mai 2016 (mae'r tablau'n dangos ystadegau ar Sectorau Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain wedi eu cwblhau ac ar gael ar gyfer SIC2007)

- Yn seiliedig ar y gyflogaeth ychwanegol a grëwyd dros y ddau orwel amser hyn, caiff y rhain eu troi'n ofyniad a fesurir mewn troedfeddi sgwâr (gan ddefnyddio paramedrau dwysedd cyflogaeth safonol);
- Caiff y gofynion wedi eu mynegi mewn troedfeddi sgwâr eu troi'n hectarau wedyn trwy ddefnyddio cymhareb plot thet o 40% (neu 4,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr fesul hectar o arwynebedd safle). Mae hwn yn werth safonol ar roddir yn *“Canllaw Ymarferol - Adeiladu Sail Tystiolaeth ar gyfer Datblygu Economaidd er mwyn Cefnogi Cynlluniau Datblygu Lleol”* a gellir ei addasu at ddibenion profi.

4.4.3 Mae'r canlyniadau ar gael ar gyfer pob sector cyflogaeth blaenoriaeth a gellir eu hadio at ei gilydd i roi cyfanswm y gofyniad ar draws Sir Gaerfyrddin.

4.5 RHAGOLYGN

4.5.1 Tabl 4-1 isod. Mae'r rhain yn cynnwys niferoedd cyflogeion ac fe'u cyflwynir ar gyfer y gorwelion amser 2017 – 2032 (15 mlynedd) a 2017 – 2037 (20 mlynedd). Dangosir y canlyniadau yn ôl a) cyflogaeth ychwanegol dros y gorwelion amser, b) gofynion yn ôl troedfeddi sgwâr ac c) gofynion wedi eu mynegi mewn hectarau. Mae'r 'cyfansymiau' yn y golofn olaf (cyfanswm yr hectarau, er enghraifft) yn cyfeirio at dir cyflogaeth ychwanegol dros y gorwelion amser penodedig.

4.5.2 Yn ogystal â'r prif nifer o swyddi ym mhob sector, mae hefyd yn bwysig cydnabod y bydd rhai sectorau yn cynhyrchu nifer o swyddi 'gwerth ychwanegol' yn y sectorau blaenoriaeth. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer yr amcangyfrif o 2,500 o swyddi Gwyddor Bywyd gan fod y rhain yn debygol o greu symiau sylweddol o gyfoeth economaidd ychwanegol yn lleol o'u cymharu â swyddi mewn sectorau mwy traddodiadol fel adeiladu.

Tabl 4-1 Canlyniadau

CATEGORI	SECTOR BLAENORIAETH 1	SECTOR BLAENORIAETH 2	SECTOR BLAENORIAETH 3	SECTOR BLAENORIAETH 4	SECTOR BLAENORIAETH 5
	Deunyddiau / gweithgynhyrchu uwch	Adeiladu	Diwydiannau Creadigol	Ynni a'r Amgylchedd	Bwyd a Ffermio
Cyflogaeth					
Newid 2017- 2032	2,032	2,931	743	3,205	2,345
Newid 2017- 2037	2,895	4,176	1,058	4,565	3,341
Troedfeddi Sgwâr					
Newid 2017- 2032	63,004	90,871	13,367	99,352	72,696
Newid 2017- 2037	89,751	129,448	19,041	141,530	103,559
Hectarau					
Newid 2017- 2032	16	23	3	25	18
Newid 2017- 2037	22	32	5	35	26

CATEGORI	SECTOR BLAENORIAETH 6	SECTOR BLAENORIAETH 7	SECTOR BLAENORIAETH 8	SECTOR BLAENORIAETH 9	CYFANSYMAU
	Ariannol a Phroffesiynol	TGCh	Gwyddorau Bywyd	Twristiaeth ²	
Cyflogaeth					
Newid 2017- 2032	1,915	430	2,500	2,580	18,681
Newid 2017- 2037	2,728	612	2,500	3,675	25,550
Troedfeddi Sgwâr					
Newid 2017- 2032	34,472	7,739	45,000	79,966	506,466
Newid 2017- 2037	49,107	11,024	45,000	113,914	702,374
Hectarau					
Newid 2017- 2032	9	2	11	20	127
Newid 2017- 2037	12	3	11	28	176

² Sylwer: Er y cydnabyddir y bydd mentrau twristiaeth angen swm wedi'i amcangyfrif o dir newydd, nid yw mentrau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn rhan o ddsbarthiadau defnydd B yn aml. O'r herwydd, mae'n debygol y bydd angen arwynebedd tir llai ar gyfer defnyddiau o'r fath o ran dyraniadau cyflogaeth y CDLI, gan fo cynigion sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn addas ar gyfer amrywiaeth o wahanol leoliadau, ac yn cael eu pennu yn unol â pholisi cynllunio.

4.6 CASGLIADAU

- 4.6.1 Fel y dangosir yn Tabl 4-1, bydd twf a ragwelir mewn sectorau allweddol (yn enwedig y rheini yn sectorau a ysgogir gan dwf Sir Gaerfyrddin, fel y diwydiannau creadigol a gwyddorau bywyd) yn golygu y bydd angen cyflenwad parhaus o dir cyflogaeth priodol.
- 4.6.2 Os yw Sir Gaerfyrddin am lwyddo i fodloni ei hamcanion economaidd a datblygu, daw'r cyflenwad hwn o dir cyflogaeth yn hanfodol felly, gan y gall sawl un o'r sectorau lle rhagwelir twf ffynnu dim ond os bydd tir digonol ar gael. Byddai enghreifftiau yng Nghaerfyrddin a'r cyffiniau wrth i'r clwstwr creadigol a digidol yn yr Egin ddatblygu yn ogystal â ger Llanelli, lle bydd cyflogaeth ym maes gwyddorau bywyd yn cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd nesaf. Mae Parth Twf Cross Hands a'r gwahanol sectorau 'gwerth uchel' sy'n cael eu targedu yn y safle hwn yn safle allweddol hefyd.
- 4.6.3 Caiff y 'cydbwysedd' rhwng y cyflenwad presennol o dir cyflogaeth a galw ei archwilio'n fwy manwl ym Mhennod 5.

5

Y CYDBWYSEDD GALW/CYFLENWAD

5.1 CYFLWYNIAD

5.1.1 Mae'r bennod hon yn archwilio'r cydbwysedd rhwng y cyflenwad presennol o dir cyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin a'r galw tebygol am dir cyflogaeth yn y dyfodol (gan gynnwys gorwel amser y Cynllun Datblygu Lleol nesaf).

5.2 TUEDDIADAU PRESENNOL

5.2.1 Fel y disgrifiwyd ym Mhennod 3, mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf (hyd at ddiwedd cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol diweddaraf ar 31 Mawrth 2017) wedi dangos bod y "nifer sy'n manteisio" ar dir a neilltuwyd ar gyfer cyflogaeth wedi cyd-fynd â'r targedau monitro a ragwelwyd. Mae'r "nifer sy'n manteisio" yn cyfeirio at safleoedd neilltuedig a ddatblygwyd a/neu'r rheini sydd â chaniatâd cynllunio dilys ar gyfer defnydd cyflogaeth.

5.2.2 Mae hyn yn amlwg o ganiatâd a datblygiadau gwirioneddol ar draws y gwahanol Ardaloedd Twf gyda nifer arbennig o dda yn manteisio ar dir cyflogaeth yn y gwahanol safleoedd yn Cross Hands yn Ardal Twf 3. Bu datblygiad cyflogaeth newydd ar draws y trefi a'r ardaloedd Haen 3 hefyd. Mae'r olaf yn arddangosiad eglur o'r angen am dir cyflogaeth mewn ardaloedd oddi wrth y prif aneddiadau poblogaeth yn Sir Gaerfyrddin.

5.2.3 Ar ôl i 111.13 hectar o dir gael ei nodi yn CDLI Rhagfyr 2014, mae'r gyfradd o ran manteisio ar hwn o'r fath y bydd y cyflenwad o dir cyflogaeth yn dod i ben ymhen ychydig flynyddoedd (ymhell o fewn y degawd nesaf yn ôl pob tebyg) os bydd tueddiadau diweddar yn parhau. Mae hyn yn seiliedig ar gyfraddau manteisio blynyddol a welwyd yn ddiweddar ac yn cynnwys 1) gwahanol ddatblygiadau sy'n cael eu hadeiladu ar safleoedd neilltuedig, 2) y cyfraddau twf a ragwelir a 3) y cynnydd tebygol i ddatblygiad a ddisgwyllir trwy'r cytundeb Dinas-ranbarth a lofnodwyd yn ddiweddar.

5.2.4 Wrth i Sir Gaerfyrddin geisio arallgyfeirio ei heconomi i sawl sector fel y diwydiannau creadigol a gwyddorau bywyd, mae'r ddarpariaeth o dir mewn ardaloedd allweddol yn hanfodol felly. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â'r amcanion yng Nghytundeb Dinas-ranbarth Bae Abertawe a lofnodwyd yn ddiweddar lle bydd datblygiadau mewn sectorau allweddol yn hanfodol i lwyddiant yr economi ranbarthol.

5.2.5 Ffactor arall sydd wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar yw argaeledd cyfyngedig tir cyflogaeth pa un a yw'r tir yn eiddo i'r Cyngor ai peidio. Roedd y canlyniad hwn yn seiliedig ar ymarfer lle chwiliodd y Cyngor am gyfleoedd i ddatblygu safleoedd ar gyfer defnydd cyflogaeth gyda phwyslais ar yr ardaloedd mwy gwledig o Sir Gaerfyrddin³.

5.2.6 Rhoddodd yr ymarfer hwn sylw i'r prinder tir cyflogaeth yn y trefi a'r aneddiadau i ganiatáu darpariaeth cyflogaeth leol. Os bydd mwy o dir cyflogaeth yn cael ei wneud ar gael yn y trefi ar aneddiadau, bydd hyn yn bodloni'r diben o gynnig mwy o ddewis i ddatblygwyr (ac ni ddylid ei ystyried yn syml felly fel gorgyflenwad o dir yn gyffredinol). Mae'r polisi hwn o gynnig mwy o ddewis hefyd yn cyd-fynd â'r polisiâu a nodir yn y CDLI.

5.2.7 Un dewis yn hytrach na'r dull hwn fyddai cyfyngu tir cyflogaeth i ardaloedd allweddol a gwella mynediad trafniadaeth at y safleoedd hyn. Gan fod y pwyslais ar y sectorau allweddol, bydd y rhain yn elwa o'r effeithiau clystyru a drafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

- 5.2.8 At ddibenion cyflawnadwyedd, roedd y pwyslais ar dir yr oedd y Cyngor yn berchen arno er y gellid ystyried tir arall. Yn seiliedig ar ddadansoddiad o 21 o drefi ac aneddiadau yn Sir Gaerfyrddin, y canlyniad oedd bod y darpar dir cyflogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn gymharol brin.
- 5.2.9 Nid oedd y 21 o leoliadau a ddewiswyd yn cynnwys y prif ganolfannau poblogaeth yng Nghaerfyrddin, Llanelli a Rhydaman gan fod y pwyslais ar ardaloedd nad ydynt yn drefol. Mae canfyddiadau'r ymarfer unwaith eto'n atgyfnerthu'r pwynt bod angen i Sir Gaerfyrddin sicrhau y bydd digon o dir cyflogaeth newydd ar gael os yw'r amcanion economaidd strategol am gael eu bodloni.
- 5.2.10 Er bod y nifer sy'n manteisio ar dir cyflogaeth a ddyrannwyd yn dal i gyd-fynd â'r targed ar gyfer cyfnod y CDLI presennol, y prif ganlyniad o'r dadansoddiad "cyflenwad yn erbyn galw" yw bod perygl gwirioneddol y bydd hwn i gyd yn cael ei ddefnyddio ymhell cyn diwedd y CDLI nesaf ac, fel y mae'r dadansoddiad ym Mhenod 4 wedi ei ddangos, bydd twf cyflogaeth mewn sectorau allweddol yn ei gwneud yn ofynnol i'r tir hwnnw barhau i gael ei wneud ar gael ymhell i'r dyfodol.

5.3 CANLYNIADAU ECONOMAIDD

- 5.3.1 Mae Sir Gaerfyrddin yn mynd trwy gyfnod o newid economaidd ac arallgyfeirio sylweddol. Gyda Chytundeb Dinas-ranbarth Bae Abertawe wedi ei lofnodi erbyn hyn, a datblygiadau allweddol fel yr Egin yng Nghaerfyrddin wrthi'n cael eu hadeiladu, bydd yr angen i ddarparu tir cyflogaeth digonol i fodloni'r galw yn y dyfodol yn hanfodol.
- 5.3.2 Bydd canlyniadau economaidd methu â darparu digon o dir (yn y lleoliadau cywir) yn amharu'n ddifrifol ar yr amcanion hynny ac mae'n debygol y bydd yn golygu y bydd y rhanbarth yn colli allan i rannau eraill o Gymru (a'r DU) os bydd yr ardaloedd eraill hyn yn llwyddo i ddarparu digon o dir cyflogaeth i fodloni eu targedau economaidd.
- 5.3.3 Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn yr economi sydd ohoni lle mae clystyru busnesau yn dod yn gynyddol bwysig ar gyfer datblygu economaidd. Un enghraifft dda yw'r Egin yng Nghaerfyrddin lle bydd y ganolfan newydd ar gyfer S4C a chwmnïau cyfryngau eraill yn gweithredu fel sbardun i ddatblygiadau eraill yn yr ardal, gan gynnwys y rheini yn y sector digidol. Heb wneud digon o dir ar gael ar gyfer y datblygiadau hyn, ni fydd yr amcanion a ysgogir gan dwf yn y Sir yn cael eu bodloni'n llawn.
- 5.3.4 Mae'r un egwyddor yn berthnasol ger Llanelli lle mae angen i dir digonol fod ar gael ar gyfer y datblygiadau yn y sector gwyddorau bywyd. Mae dibyniaeth Sir Gaerfyrddin ar fusnesau bach a 'micro' hefyd yn golygu bod angen darparu tir cyflogaeth ar draws rhan fawr o'r Sir fel bod digon o hyblygrwydd yn y farchnad i'r cwmnïau bach hyn sefydlu (os ydynt yn newydd), ehangu (os ydynt yn bodoli) a ffynnu.
- 5.3.5 Bydd angen arwynebedd tir cyflogaeth addas gan y bydd mwy o ddewis o safleoedd yn hwyluso anghenion amrywiol busnesau ac yn adlewyrchu natur wledig rhannau o'r Sir yn ogystal â'r angen am safleoedd hygyrch (â chysylltiadau trafniadaeth rhesymol).

³ Gofynnwyd i'r tîm Eiddo Corfforaethol yng Nghyngor Sir Caerfyrddin gan Aelod Gweithredol o'r Bwrdd yn y Cyngor chwilio am gyfleoedd i ddatblygu safleoedd ar gyfer defnydd cyflogaeth gyda phwyslais ar ardaloedd mwy gwledig y sir. At ddibenion cyflawnadwyedd, roedd y pwyslais ar dir yr oedd y Cyngor yn berchen arno (er y gellid ystyried tir arall)

6

GOBLYGIADAU POLISI A DARPARU

6.1 CYFLWYNIAD

6.1.1 Mae'r bennod hon yn ystyried polisi a mesurau eraill y bydd eu hangen i gefnogi'r portffolio safleoedd presennol a diwallu anghenion busnes y dyfodol yn Sir Gaerfyrddin. Y 'camau gweithredu' a ddangosir isod yw'r rheini sydd wedi cael eu trafod a'u cytuno gyda'r Cyngor Sir yn dilyn y fersiynau cynharach o'r adroddiad hwn a'i ganfyddiadau.

6.2 CAMAU GWEITHREDU

6.2.1 Argymhellir y camau gweithredu canlynol:

- Sefydlu rhaglen caffael tir ragweithiol o safleoedd cyflogaeth ar draws y sir – dewis arall fyddai Menter ar y Cyd gyda phartneriaid allweddol yn y sectorau cyhoeddus a /neu breifat;
- Sefydlu Cronfa Datblygu Eiddo i alluogi darpariaeth sector preifat fel y gall hyn lenwi'r bylchau rhwng cost prosiect a gwerth prosiect. Gall hon fod yn gronfa fewnol neu fod yn ymgyrch lobïo effeithiol i gael cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid;
- Gweithio gyda chyfleustodau i sicrhau bod dyheadau twf economaidd y Sir a'r rhanbarth yn cael eu hamlygu a'u cynnwys yn eu Rhaglenni Rheoli Asedau;
- Cydnabod swyddogaeth cymorth y Gronfa Datblygu Eiddo trwy ddatblygu rhaglenni priodol a chanllawiau;
- Sicrhau bod seilwaith, gan gynnwys ymarferoldeb a chymhwysedd cyfleustodau, ac agweddau bioamrywiaeth yn cael eu hystyried ymlaen llaw wrth ddedhol safleoedd ychwanegol ar gyfer defnydd cyflogaeth;
- Unwaith y caiff lleoliad crynodiadau o weithgarwch ("clystyrau") eu nodi, gweithio'n agos gyda darparwyr trafndiaeth, cwmnïau cyfleustodau, Cyfoeth Naturiol Cymru a thirfeddianwyr i nodi safleoedd addas. Bydd y dull cydweithredol hwn yn fwy cost-effeithiol i'w ddatblygu a chyfeirir ato yn Strategaeth Ddiwydiannol ddiweddar y DU. Mae'r Strategaeth yn cyfeirio, er enghraifft, at ddewisiadau cynghorau lleol ynghylch ble i annog datblygiad a lle mae'r posibiliadau hyn yn cael eu cyfyngu gan ddiffyg adnoddau i adeiladu ffyrdd, i osod cyfleustodau ac i gyflawni gwaith arall i wneud safleoedd yn hyfyw. Dylai'r Cytundeb Dinas a lofnodwyd yn ddiweddar hefyd alluogi dull mwy cydlynol, 'cydgysylltiedig' o gynllunio seilwaith; a
- Sicrhau bod gweithdrefnau ymyrryd digonol ac effeithiol ar waith fel bod mwy o safleoedd addas ar gyfer defnyddio cyflogaeth yn dod ar gael. Bydd gan yr ymyriadau hyn ran bwysig i'w chwarae pan allai fod gan dirfeddianwyr ddyheadau eraill ar gyfer eu safleoedd, yn enwedig pan allai'r rhain greu enillion ariannol / masnachol mawr.

6.2.2 Bydd gofyniad hefyd i sicrhau bod tir cyflogaeth yn darparu dwysedd cyflogaeth digonol i 1) leihau faint o dir a gymerir a 2) gwneud defnydd mor effeithlon a chynaliadwy o adnoddau â phosibl.

6.2.3 Hefyd, bydd yn bwysig sicrhau bod tir ac adeiladau a ddefnyddiwyd yn flaenorol yn cael eu blaenoriaethu.

6.3 AMCANION POLISI A DARPARU YCHWANEGOL

6.3.1

Mae nifer o oblygiadau polisi pwysig eraill yn deillio o'r gwaith hwn a chaiff y rhain eu crynhoi isod:

- Er bod gofyniad eglur y gellir ei gyfiawnhau i ganolbwyntio ar y sectorau a ysgogir gan dwf yn yr economi leol (fel gwyddorau bywyd), mae hefyd yn bwysig ystyried cyflogaeth mewn sectorau a diwydiannau traddodiadol, fel diwydiant gweithgynhyrchu – bydd y sectorau mwy traddodiadol hyn yn parhau i chwarae rhan fawr yn economi Sir Gaerfyrddin. Bydd angen ystyried darpariaeth briodol o dir cyflogaeth ar gyfer y sectorau hyn;
- Er y bydd dyraniad defnydd tir B1 yn briodol ar gyfer y sectorau twf yn yr economi leol, efallai y bydd diwydiannau traddodiadol dal i fod angen dyraniadau ar wahân mewn rhai ardaloedd daearyddol. Bydd hyn yn sicrhau bod defnydd llawn yn cael ei wneud o ddyraniadau B1 a phob dyraniad B2 (fel nad yw'r defnyddiau tir sy'n gysylltiedig â diwydiannau traddodiadol yn cael eu gwthio i'r cyrion);
- Mae'n bwysig pwysleisio os bydd y rhan fwyaf o safleoedd strategol Sir Gaerfyrddin wedi eu neilltuo i'r diwydiannau digidol, gwyddorau bywyd a chreadigol y bydd cyflenwad cyfyngedig i fodloni'r galw am ddiwydiannau traddodiadol mewn rhai rhannau allweddol o'r sir; a
- Bydd y twf yn y sectorau gwerth uchel newydd hefyd yn cynyddu'n anuniongyrchol y galw am ddiwydiannau traddodiadol ategol. Mae hyn yn ychwanegu felly at yr achos dros fwy o ddyraniad defnydd tir B2 a cheir diffygion cyflenwi eglur ym mhrif ardaloedd trefol Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman a hefyd yn nhair ardal wledig dyffrynnoedd Tywi, Taf a Theifi.

7 CASGLIADAU

7.1 CASGLIADAU ALLWEDDOL

- 7.1.1 Mae Sir Gaerfyrddin wrthi'n cael ei gweddnewid yn sylweddol o ran gweithgarwch economaidd ar hyn o bryd, wrth i sawl sector newydd ddod i'r amlwg a pharhau'r broses o ddisodli rhai o'r diwydiannau mwy traddodiadol a oedd yn gysylltiedig ag economi'r Sir yn y gorffennol.
- 7.1.2 Mae Sir Gaerfyrddin yn rhan graidd o Ddinas-ranbarth Bae Abertawe ac mae nifer o amcanion economaidd y Rhanbarth wedi eu targedu'n benodol at y Sir. Mae'r rhain yn cynnwys y sector digidol yn ogystal â diwydiannau creadigol a gwyddorau bywyd.
- 7.1.3 Gan fod angen sgiliau allweddol ar gyfer cyflogaeth yn y sector hyn a'u bod yn cynnig cyfleoedd am swyddi da â chyflogau da i bobl yn Sir Gaerfyrddin, ceir potensial mawr i gynyddu gweithgarwch economaidd yn ogystal â chynhyrchiant a safonau byw yn y Sir.
- 7.1.4 Gan fod all-lifoedd o bobl ifanc o Sir Gaerfyrddin yn dal i fod yn amlwg (fel y gallant ddod o hyd i gyfleoedd gwaith mewn mannau eraill yn bennaf), mae'r potensial i ddatblygu cyflogaeth leol yn y Sir yn hollbwysig a bydd yn cynnig y fantais ychwanegol o alluogi Sir Gaerfyrddin i gadw ei defnydd o'r Gymraeg. Bydd datblygiadau fel y rheini yn yr Egin yn helpu'r olaf, er enghraifft.
- 7.1.5 Er i swm sylweddol o dir gael ei dyrannu ar gyfer defnydd cyflogaeth newydd yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLI) 2014, mae'r graddau y manteisiwyd ar hyn yn y blynyddoedd diwethaf – trwy ganiatâd cynllunio a datblygiad gwirioneddol – yn golygu y bydd y potensial llawn ar gyfer cyflogaeth yn cael ei gyfyngu'n ddifrifol heb gyflenwad o'r newydd o dir cyflogaeth ychwanegol yng nghyfnod y CDLI dilynol.
- 7.1.6 Mae archwiliad diweddar o argaeledd tir cyflogaeth mewn ardaloedd allweddol yn Sir Gaerfyrddin (fel Gogledd a De Rhydaman, Talacharn, Llanymddyfri, Gogledd Llanelli, Castellnewydd Emlyn, Sanclêr a Hendy-gwyn ar Daf) yn dangos bod y tir sydd ar gael yn yr ardaloedd hyn ar hyn o bryd yn gymharol brin. Mae hyn unwaith eto'n cefnogi'r prif gasgliad ei bod yn hanfodol bod tir cyflogaeth ychwanegol ar gael yng nghyfnod y CDLI newydd.
- 7.1.7 Mae'r ddarpariaeth o dir cyflogaeth hefyd yn hanfodol o ystyried bod rhai o'r sectorau blaenoriaeth fel gwyddorau bywyd yn cychwyn o sail gyflogaeth isel iawn i bob pwrpas ac y byddant angen llawer iawn o dir os ydynt am ddatblygu'n llwyddiannus a gwireddu eu llawn botensial.

7.2 ARGYMHELLION

- 7.2.1 Mae'r argymhellion yn dilyn y gwahanol gamau gweithredu ac amcanion strategaeth a nodir yn Adranau 6.2 a **Error! Reference source not found.** (ym Mhennod 6) yn eu trefn, i raddau helaeth. Caiff y rhain eu crynhoi isod:
- Datblygu rhaglen caffael tir ragweithiol o safleoedd cyflogaeth – bydd ymyriadau rhagweithiol ar gam priodol hefyd yn helpu mewn sefyllfaoedd lle gallai tirlfeddianwyr presennol gael eu temtio i ddatblygu tir ar sail gwbl fasnachol (yn hytrach nag at ddibenion cyflogaeth penodol);
 - Sefydlu Cronfa Datblygu Eiddo (i hwyluso darpariaeth sector preifat);
 - Gweithio gyda darparwyr cyfleustodau i sicrhau bod y dyraniadau defnydd tir yn cyd-fynd â'u Rhaglenni Rheoli Asedau;
 - Mae angen cymryd ystyriaethau seilwaith i ystyriaeth cyn cyflawni dyraniadau defnydd tir;

- Ar ôl i glystyrau / crynodiadau o weithgarwch gael eu nodi, gweithio'n agos gyda gwahanol ddarparwyr trafndiaeth a chyfleustodau (yn ogystal â darparwyr perthnasol eraill) i roi'r atebion gorau posibl ar waith – dylai'r Cytundeb Dinas a lofnodwyd yn ddiweddar helpu i hwyluso hyn hefyd;
- Sicrhau bod y dwyseddu cyflogaeth gofynnol yn gyflawnadwy ym mhob defnydd tir cyflogaeth neilltuedig (a gwneud defnydd effeithlon / cynaliadwy o adnoddau).
- Sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i dir ac adeiladau a ddefnyddiwyd yn flaenorol; ac
- Yn ogystal â'r pwyslais ar y sectorau twf, sicrhau bod tir digonol yn cael ei ddyrannu i sectorau traddodiadol (e.e. sicrhau hefyd nad yw defnydd tir B2 yn cael ei 'wthio i'r cyrion').

7.2.2

Ceir achos eglur felly dros ymyriadau a champau wedi eu targedu i helpu i sicrhau'r cyflenwad gorau posibl o dir cyflogaeth. Heb ymyriadau o'r fath, mae dibyniaeth ar 'rymoedd y farchnad' yn unig yn annhebygol o alluogi Sir Gaerfyrddin i fodloni ei hamcanion cyflogaeth. Mae hyn yn arbennig o wir i glystyrau busnesau twf gwerth uchel lle mae angen i'r cyflenwad o dir cyflogaeth gael ei ategu gan seilwaith priodol, fel cyfleustodau a mynediad da at drafndiaeth.

FFYNONELLAU

- Cyngor Sir Caerfyrddin (2010). Astudiaeth Tir Cyflogaeth. Adroddiad Terfynol.
<http://planning.carmarthenshire.gov.uk/AnitePublicDocs/53325663.pdf>
- Cyngor Sir Caerfyrddin (2014). Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin.
<http://www.carmarthenshire.gov.wales/media/549379/HRA-Vol-1-Main-text-27Nov14.pdf#>
- Llywodraeth Cymru (2016). Pennod 7 Datblygu Economaidd. Polisi Cynllunio Cymru.
<http://gov.wales/docs/desh/publications/161117ppw-chapter-7-cy.pdf>
- Llywodraeth Cymru (2014). Nodyn Cyngor Technegol 23.
<http://gov.wales/docs/desh/policy/140207tan-23-economic-development-cy.pdf>
- Cyngor Sir Caerfyrddin(2016). Adolygiad Tir Cyflogaeth 2016.
www.sirgar.llyw.cymru/media/1643872/Employment-Land-Review-ELR-Report-2016-Cymraeg-COMLETEE.pdf
- Llywodraeth Cymru (2015). *Practice Guidance - Building an Economic Development Evidence Base to Support a Local Development Plan.*
<http://gov.wales/docs/desh/publications/150925building-an-economic-development-evidence-base-en.pdf>
- Llywodraeth Abertawe (2013). Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe 2013-2030
<http://www.abertawe.gov.uk/StrategaethAdfywioEconomaiddDinasRanbarthBaeAbertawe>
- Llywodraeth Cymru (2016). Y Cynllun Cyflawni Rhanbarthol ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau yn Ne-orllewin a Chanolbarth Cymru.
<http://www.rlp.org.uk/regional-delivery-plan/?lang=cy>
- Cyngor Sir Caerfyrddin (2015). Cynllun Adfywio Strategol ar gyfer Sir Gâr 2015-2030 – Trawsnewidiadau.
http://www.sirgar.llyw.cymru/media/1257502/TansDoc_welshonly_webversion.pdf

